



Eich cyf/Your ref MA/JMEWL/0062/24

David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Casnewydd
NP10 8AR

david.jones@qualifications.wales

Chwefror 2024

Annwyl David,

Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i weithgareddau Cymwysterau Cymru yng Nghymru: 2024 - 2025

Mae cyllideb derfynol 2024-25 wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac rydym bellach mewn sefyllfa i roi llythyr cynnig grant ichi ar gyfer 2024-25.

Mae cyllideb adnodd a chyfalaf o **£10.507** miliwn wedi'i dyrannu i Cymwysterau Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Dyma'r swm y caiff Cymwysterau Cymru ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw.

Y setliad cymorth grant dros dro ar gyfer 2024-25 yw **£10.257** miliwn. Dyma lefel y cymorth grant arian parod y ceir ei hawlio gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae wedi'i addasu mewn perthynas â gwariant nad yw'n ymwneud ag arian parod (h.y. dibrisiant), arian parod sydd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ac unrhyw ofynion cyfalaf gweithio.

Mae'r gyllideb adnodd a chyfalaf a'r setliad cymorth grant ar gyfer 2024-25 wedi'u nodi yn y tabl canlynol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gyllideb gan Lywodraeth y DU o 2024-25 ymlaen. Felly, bydd y gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru yn 2025-26 yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad gwariant nesaf.

	2024–25 £000
Refeniw ⁽¹⁾	9,807
Arholiadau Cymraeg i Oedolion	200
Cyfanswm Refeniw	10,007

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

	2024–25 £000
Heb fod yn arian parod (e.e. Dibrisiant/Amhariad)	250
Cyfanswm yr Adnoddau	10,257
Cyfalaf	250
Cyfanswm y Gyllideb Adnodd a Chyfalaf	10,507
<i>Addasiadau Cymorth Grant:</i>	
Heb fod yn arian parod (ee Dibrisiant/Amhariad)	(250)
Dyledwyr/Credydwyr/Darpariaethau	
Cronfa wrth gefn	
Prydlesi IFRS16 ⁽²⁾	
Cyfanswm y Cymorth Grant a Ragwelir ⁽³⁾	10,257

1. Yn adlewyrchu sefyllfa Cymwysterau Cymru o ran adnodd.
2. Bydd angen addasiadau ar gyfer IFRS16, y safon cyfrifyddu ar gyfer prydlesi a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2022. Bydd cyllidebau adnodd yn cael eu haddasu fel rhan o Gyllideb Atodol y flwyddyn, ond bydd angen i lifau arian parod allan aros yr un fath.
3. Bydd y cymorth grant arian parod a dynnir i lawr yn dibynnu ar werth y dyledwyr a'r credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol a chyfredol, a gwerth y darpariaethau i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn.

Rydym i gyd yn ymwybodol y bydd newidiadau i gyfraddau cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr o 1 Ebrill 2024, a disgwylir i'r rhain gynyddu costau pensiynau. Nid yw'r dyraniad cyllideb presennol yn cynnwys cyllid i dalu'r costau uwch hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ar gyfer cynnydd yng nghyfraddau cyfraniad cyflogwyr, ac rydym yn disgwyl y bydd yr addasiad cyllid ychwanegol hwn yn rhan o'r gyllideb atodol gyntaf. Rydym yn gofyn am eglurhad brys gan Lywodraeth y DU y bydd y costau ychwanegol hyn, sy'n deillio o'r newid i gyfradd ostyngiad SCAPE, yn cael eu talu'n llawn.

Fel y mae'r Cytundeb Fframwaith yn ei gadarnhau, os bydd Cymwysterau Cymru yn ennill incwm o ffynonellau allanol, caiff gadw hyd at 1% o gyfanswm y referniw heb effeithio ar ei ddyraniad grant.

Rwy'n ymwybodol eich bod yn parhau i drafod adnoddau a phwysau'r costau cysylltiedig yn y dyfodol â swyddogion. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn cydnabod y pwysau ar gyllid cyhoeddus ac yn croesawu eich ymrwymiad i ystyried y ffordd orau o flaenoriaethu, cynllunio a chyflwyno eich rhaglenni gwaith, gan gynnwys datblygu'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 ac ymateb i argymhellion yr adolygiad cymwysterau galwedigaethol. Rwy'n cydnabod bod angen ichi ystyried sut mae eich gwaith yn cyd-fynd â gwaith partneriaid a'r system ehangach i liniaru'r risg o greu beichiau ychwanegol arnoch chi eich hun ac eraill. Wrth gwrs, bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda chi i helpu i reoli'r pwysau a'r heriau a nodwyd.

Telerau ac Amodau'r Cyllid

Mae llythyr y cylch gwaith a'r Cytundeb Fframwaith a anfonwyd at Cymwysterau Cymru yn nodi gofynion gweithredol, ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau Llywodraeth Cymru y mae angen i Cymwysterau Cymru gydymffurfio â nhw, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Pennaeth eich tîm partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru yw Georgina Haarhoff, a'ch enw cyswllt arferol o fewn y tîm yw Michael Keoghane. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu gyda'ch tîm partneriaeth er mwyn sicrhau trefniadau goruchwylio a monitro priodol.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language